# Cyfarfod Fforwm Gwirfoddolwyr: Cofnodion

## 17eg Gorffennaf 2024 10am - 1.30pm, Llanion

**Presennol:** Ellie Sherwin (ES), Jon King (JK), Granville Watson (GW), David Fisher (DF), Michele Chung (MC), Rebecca Evans (RE), Sally Boyton (SB), Joy Arkley (JA), Gordon Lewis (rhan)

**Ymddiheuriadau:** Karin Howells, Roy Partington, Jan Millward, Madeleine Bland, Helen Clarke

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

## 2. Joy Arkley (Pennaeth Gwasanaethau Pobl) – Croeso

Cyflwynodd Joy ei hun i aelodau'r fforwm ac amlinellodd ei chylch gwaith yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP). Cyflwynodd aelodau'r Fforwm eu hunain hefyd a'r rolau gwirfoddoli sydd ganddynt yn y Parc (roedd y rhan fwyaf o'r rolau gwirfoddoli ar draws y Parc yn cael eu cynrychioli yn yr ystafell)

Roedd y pynciau'n cynnwys:

- Y nod o gysoni arferion gwaith yn fewnol
- Cyflwyno'r arfer o gyfeirio ymgeiswyr am swyddi yn APCAP at waith gwirfoddoli fel ffordd o ddatblygu eu hunain
- Ystyried cyflwyno rolau 'gweinyddol' i wirfoddolwyr ym Mhencadlys a Chanolfannau APCAP
- Sicrhau bod y rheolwyr llinell presennol yn teimlo'n ddiogel yn eu swyddi
- Annog staff APCAP i ddefnyddio eu diwrnod gwirfoddoli dynodedig
- Archwilio adnoddau a deunyddiau er mwyn gallu rhoi cyfnod cynefino/croeso integredig i staff/gwirfoddolwyr/aelodau APCAP
- Potensial i'r Fforwm gael ei ddefnyddio i ganfod a phenderfynu pa feysydd i recriwtio ar eu cyfer
- Potensial i Barcmyn Ifanc gydweithio â sefydliadau eraill, i ehangu eu gorwelion astudio/gyrfa a datblygu sgiliau pellach (Defnyddir PAVS i gynnal 'Pasbort Gwirfoddolwyr' fel bod cefnogaeth ar gael ar draws y sir)

## 3. Diweddariadau o'r cyfarfod blaenorol

| Diweddariad | Gweithredu |
|---|---|
| Mae **siart sefydliad** i amlinellu strwythur staff/gwirfoddolwyr yn dal i fod fel cais. Soniodd Joy fod siart wedi'i diweddaru ar gael ar system fewnol Parcnet. | SB i gysylltu â Gethin (Gwasanaethau Pobl) i'w ganfod a'i addasu os yw hynny'n bosibl. |

| | |
|---|---|
| **Monitro llwybrau troed**<br>Cytunwyd y byddai'n fuddiol i wirfoddolwyr monitro llwybrau gael mwy o wybodaeth am reoli llwybrau ac am flaenoriaethau APCAP yn gyffredinol.<br><br>Ailadroddodd Jon fod cyfarfod blynyddol hefyd yn bwysig i alluogi'r tîm i gwrdd â'i gilydd, i drafod y mathau o faterion sy'n cael eu hadrodd ac i sicrhau bod mapiau/adroddiadau yn cael eu safoni mwy. | SB i ofyn i Chris Taylor gadarnhau dyddiad ar gyfer y Gaeaf yn y dyddiadur. |
| **Gwirfoddolwyr sy'n cefnogi wardeniaid**<br>Mae'r gwirfoddolwyr yn dal yn awyddus i gefnogi wardeniaid APCAP gyda'u tasgau lle bo hynny'n bosibl er mwyn ysgafnu baich eu timau yn ystod adegau prysur.<br>Mae RE wedi rhoi gwybod i'r tîm wardeniaid am y cynnig sawl gwaith. | RE i ganfod a fydd hyn yn bosibl yn y tymor hir. |
| **Gwisg**<br>Mae RE wedi symud ymlaen i brynu crysau llewys hir gyda choler, a fydd yn cael eu cynnig i wirfoddolwyr newydd fel dewis yn lle'r crys polo llewys byr. Efallai y bydd y gwirfoddolwyr presennol hefyd yn gallu cael crys llewys hir, yn dibynnu ar eu rôl. Anfonwyd sampl at Gordon Lewis i'w treialu ac fe'u hargymhellwyd gan dîm y wardeniaid.<br><br>Dywedodd GL nad yw'r crys llewys hir heb goler yn addas ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n arwain teithiau undydd – mae Maes Tanio Castellmartin yn agored iawn i wres a chlêr llwyd ac mae'n teimlo bod angen mwy o warchodaeth arnynt.<br><br>Crybwyllwyd unwaith eto fod y gôt gwrth-ddŵr gyda leinin fflîs a ddarparwyd i un gwirfoddolwr yn rhy boeth ar gyfer dyddiau gwlyb yr haf.<br><br>Tynnwyd sylw at y ffaith eu bod yn gorfod aros yn hir am wisg a rhannwyd y pryder ynghylch pam bod gwisg rhai grwpiau gwirfoddol penodol yn gallu cael ei 'huwchraddio' oherwydd bod rhai prosiectau penodol yn cael mwy o gyllid. Cynigiwyd y dylai'r dillad gael eu cyllido'n ganolog i sicrhau cydraddoldeb i bob gwirfoddolwr. | <br><br><br><br><br><br><br><br>RE/SB i ailystyried y crys llewys hir ac adrodd yn ôl.<br><br><br><br><br>RE/SB i weld a ellir darparu'r rhain a threfnu i gael rhai newydd i'r gwirfoddolwr perthnasol.<br><br>RE/JA i drafod sut byddwn yn delio â'r dillad yn y dyfodol a datblygu polisi clir y gellir ei rannu gyda gwirfoddolwyr. |
| **Hyfforddiant**<br>Bu dau wirfoddolwr o APCAP yn yr hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys a ddarparwyd yn rhad ac am ddim drwy PAVS. | |
| **Hyfforddiant coed**<br>Mae nifer o wirfoddolwyr wedi dangos diddordeb mewn mynychu uwch-gyrsiau hyfforddiant coed (yn benodol adnabod rhywogaethau a choed hynod) | SB i drefnu dyddiadau posibl ar gyfer y cyrsiau gyda Mike Higgins a gwahodd wardeiniaid coed gwirfoddol i fynychu. |
| **Lleoliad sych ar gyfer sesiynau Llwybrau mewn tywydd gwlyb** | |

| | |
|---|---|
| Ni chadarnhawyd lleoliad eto i alluogi gweithgareddau Llwybrau a chefnogaeth y cyfranogwyr i barhau mewn tywydd gwlyb.<br><br>Yr un yw'r consensws cyffredinol fod diffyg lleoliad sych yn golygu nad yw amcanion 'lles' y prosiect Llwybrau yn cael eu cyflawni a bod y tywydd gwlyb parhaus yn amlwg yn digalonni cyfranogwyr, yn enwedig y rhai y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt. Ystyrir bod lle dan do yn un o brif flaenoriaethau'r prosiect, yn enwedig cyn Gaeaf 2024/25. | RE i barhau i ymgynghori â'r tîm rheoli i sefydlu cynlluniau ar gyfer y prosiect i'r dyfodol. |

## 4. Diweddariadau gan y gwirfoddolwyr

| **Diweddariad** | **Gweithredu** |
|---|---|
| **Grwp cerdded y Gogledd a monitro annibynnol**<br>Cyflwynodd Ellie Sherwin adroddiad ar ei gwaith ynghylch monitro annibynnol, sy'n mynd yn dda ond fod y tywydd gwael hyd yma wedi llesteirio rhyw gymaint arno.<br>Rhannodd fod grŵp Cerdded Er Lles y Gogledd, a ddatblygwyd ganddi hi a'r Parcmon Meg, yn dal i fod yn llwyddiannus a'u bod yn dechrau gweld cyfranogwyr y daith gerdded yn camu i'r adwy i arwain teithiau yn annibynnol. Mae Ellie wedi dweud wrth Ben am hyn ac wedi tynnu sylw'r grŵp at hyn fel ymholiad i sicrhau bod gan bawb warchodaeth gyfreithiol. | RE i dynnu sylw Ben Macare at. Drefniadau cyfreithiol APCAP |
| **Parcmyn Ifanc**<br>Hysbysodd y Parcmon Ieuenctid, Michele Chung, y grŵp o waith ar Faniffesto Ieuenctid sydd wedi'i ddiweddaru; mae hon yn ddogfen fyw sydd bellach yn cynnwys adrannau ychwanegol ar les, amrywiaeth, ac ati.<br><br>Byddant hefyd yn cynrychioli APCAP yng Ngŵyl Cynhwysiant Sir Benfro yn Foundry House, Penfro ddiwedd mis Gorffennaf.<br><br>Mae rhai o'r gwirfoddolwyr ifanc hefyd yn gweithio ar greu cynnwys er mwyn gallu rhannu diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Cynigiodd Michele hefyd ein bod yn ystyried gwahodd parcmyn ifanc i ymuno â sesiynau gwirfoddoli i oedolion yn ystod misoedd yr haf er mwyn iddynt allu dysgu ymhellach. | Gwahoddwyd MC i ddarparu crynodeb ysgrifenedig ar gyfer diweddariad gwaith gwirfoddol mis Awst.<br><br>SB i drafod y posibilrwydd bod pobl ifanc yn ymuno â sesiynau i oedolion gyda Maisie Sherratt (Swyddog Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc) |
| **Wardeiniaid Gwirfoddol y Gogledd Orllewin**<br>Crynhodd David Fisher y gweithgareddau diweddar a gwblhawyd gan dîm gwirfoddolwyr y Gogledd Orllewin gan gynnwys codi Jac y Neidiwr, cynnal a chadw/clirio grisiau a glanhau traethau. Mae'r gwirfoddolwyr yn mwynhau eu gwaith ac yn edrych ymlaen at dywydd sychach yn fuan. | |
| **Llwybrau** | |

| | |
|---|---|
| Rhoddodd Jon King grynodeb o'r gweithgareddau diweddar a gwblhawyd gan y tîm Llwybrau, gan gynnwys plannu a phlygu gwrychoedd, ffensio, glanhau traethau, codi Jac y Neidiwr, gwneud blychau adar, trwsio pontydd troed a mwy. Mae'r grŵp yn gweithio'n dda iawn fel tîm ac mae deinameg y grŵp wastad yn gadarnhaol, a chefnogir y cyfranogwyr yn effeithiol.<br><br>Pwysleisiodd Jon yr effaith negyddol ar gyfranogwyr pan nad yw sesiynau Llwybrau yn rhedeg (mae 8 heb redeg er Mawrth 24 oherwydd hyfforddiant staff a gwyliau blynyddol) ac awgrymodd y dylid ystyried cynllun amgen i alluogi'r cyfranogwyr i gario ymlaen yn absenoldeb Mitch. Roedd mwyafrif y grŵp yn cytuno y dylid pwyso a mesur yr opsiynau (cyfeiriodd JA hefyd at bwysigrwydd lles staff ac at annog staff i gymryd y gwyliau yr oedd ganddynt yr hawl iddo yn wastad drwy gydol y flwyddyn).<br><br>Trafodwyd y syniad bod gwirfoddolwyr Llwybrau yn mynychu 'diwrnodau cymdeithasol' gyda chefnogaeth Mentoriaid y prosiect a theimlwyd ei fod yn opsiwn ymarferol, gan ddefnyddio is-bwyllgor i gynllunio sesiynau 'dim arweinwyr' yn y dyfodol. Bydd trafnidiaeth ac anghenion ychwanegol cyfranogwyr yn ffactor pwysig i'w ystyried yn y drafodaeth hon.<br><br>**Monitro llwybrau troed**<br>Cyflwynodd Jon fap o Barc Cenedlaethol Penfro gyda phinnau yn nodi lleoliadau'r llwybrau troed sy'n cael eu cynnal a'u cadw. Cynigiodd ein bod yn ystyried atgynhyrchu hwn fel map digidol a allai hefyd gynnwys meysydd gwaith eraill (monitro bywyd gwyllt/coetiroedd).<br><br>**Gwirfoddolwyr Monitro Treftadaeth**<br>Cyhoeddodd Dave mai ef oedd yn gweithredu fel cynrychiolydd y Gwirfoddolwyr Monitro Treftadaeth a gofynnodd sut oedd y ffordd orau o gyfathrebu â gwirfoddolwyr monitro i rannu diweddariadau. Trafodwyd defnyddio swyddogaeth 'pwyllgor' Better Impact (sy'n gweithredu fel cyfleuster e-bost grŵp) fel ateb. | SB i ystyried yr opsiwn i gynnal gweithgareddau Llwybrau amgen gyda Mitchell Hill/Graham Peake<br><br>SB i rannu'r syniad â chydweithwyr APCAP i gael sylwadau.<br><br>SB i gysylltu â Tomos Jones ac RE i brofi ymarferoldeb defnyddio pwyllgorau BI (angen ystyried GDPR) |
| **Teithiau Cerdded Lles**<br>Dywedodd Gordon Lewis fod gwirfoddolwyr A&E wedi cwrdd â'r tîm Iechyd a Lles (Angela Robinson/Ben Macare) ar ddechrau'r flwyddyn – mae nifer o wirfoddolwyr yn dal i deimlo'n ansicr ynghylch manylion rôl Ben (gan nad yw'n llenwi rolau Sam Evans) ac roeddent yn ddryslyd eu bod wedi cael cynnig cefnogaeth gan APCAP pan oedden nhw wedi cael ar ddeall mai'r rôl wirfoddoli oedd cefnogi APCAP.<br><br>Yn absenoldeb cydlynydd APCAP, mae'r arweinwyr teithiau cerdded wedi cymryd cyfrifoldeb i arwain teithiau cerdded drwy rota. Nododd GL ei fod ef yn bresennol fel arfer, ond tynnodd sylw at yr angen i ofyn i'r tîm Iechyd a Lles a yw teithiau cerdded sy'n cael eu harwain yn annibynnol yn dal o fewn trefniadau cyfreithiol APCAP. | |

| | |
|---|---|
| Mynegodd GL bryder hefyd am y 6 mis pan adawyd y gwirfoddolwyr heb neb yn gofalu amdanynt rhwng ymadawiad Sam Evans a recriwtio Ben Macare. Roedd y gwirfoddolwyr yn teimlo y cafwyd llai o gyfathrebu a bod llai o weithgareddau gwirfoddoli yn cael eu trefnu, sy'n golygu bod llawer wedi colli cymhelliant ac yn teimlo bod pawb wedi troi cefn arnynt.<br>Esboniodd JA fod y broses recriwtio ar gyfer y rôl newydd wedi bod yn fwy cymhleth nag ond llenwi swydd wag, a oedd wedi golygu bod dwy rôl yn cael eu cynnig a bod gofyn am sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y rôl yng Ngogledd Sir Benfro, a oedd yn golygu bod llawer llai o geisiadau wedi dod i law.<br><br>**Gweithgareddau a Digwyddiadau**<br>Dywedodd Gordon fod arweinwyr teithiau cerdded gweithgareddau a digwyddiadau yn mynd yn brin a chynigiodd fod arweinwyr ychwanegol yn cael eu recriwtio i sicrhau cynllun olyniaeth.<br><br>Roedd y syniadau a drafodwyd yn cynnwys:<br>• Caniatáu i arweinwyr teithiau cerdded eraill (Cerddwyr Lles efallai) fod yn 'brentisiaid' ar deithiau cerdded mwy er mwyn magu profiad<br>• Cynnig cyfle i unigolion sy'n gofalu am gefn y criw cerddwyr ddod yn arweinwyr<br>• Cynyddu nifer y teithiau cerdded 'tymor twym' i ddenu mwy o arweinwyr | RE i dynnu sylw Angela Robinson/Ben Macare at yr holl bwyntiau.<br><br>RE i dynnu sylw Sarah Parmor at y pwyntiau hyn. |
| **Wardeiniaid Gwirfoddol y Gogledd**<br>Rhoddodd Granville Watson ddiweddariad manwl ar weithgareddau gwirfoddoli yn y gogledd gan gynnwys clirio llwybrau'r arfordir, casglu sbwriel, tocio a thacluso coed a chodi Jac y Neidiwr.<br><br>Fe wnaeth y grŵp hefyd ffarwelio â Roddy Campbell sydd wedi ymddeol yn hapus fel gwirfoddolwr ar ôl 26 mlynedd gydag APCAP. | |

## 5. Diweddariadau APCAP

| | |
|---|---|
| **Adolygiad o Reolaeth Cefn Gwlad**<br>Rhannodd RE drosolwg o'r adolygiad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd sy'n dod i ben ym mis Medi 2024. Cadarnhaodd RE ei bod wedi cyfrannu at yr adolygiad, gan sicrhau bod amcanion y gwaith gwirfoddol yn cael eu hystyried fel un o'r blaenoriaethau allweddol.<br><br>Ymhlith y trafodaethau cyffredinol, codwyd y pynciau canlynol:<br>• Defnyddio wardeiniaid tymhorol fel staff dros dro i arwain sesiynau Llwybrau (pan fydd Mitchell Hill yn absennol) | |

| | |
|---|---|
| • Mae oed cyfartalog gwirfoddolwyr yn codi (mae oed pensiwn yn codi)<br>• Byddai mwy o sesiynau gwirfoddoli dros y penwythnos yn ei gwneud yn haws i recriwtio gwirfoddolwyr iau, yn y gobaith y byddant yn gwella eu sgiliau'n gynharach ac yn parhau i gefnogi APCAP ar ôl ymddeol | |
| **Aelod Newydd o APCAP**<br>Rhoddodd RE wybod i'r grŵp bod Aelod newydd o APCAP, Sam Skyrme-Blackhall, wedi cael ei ethol, ond na allai ddod i'r fforwm yn anffodus oherwydd apwyntiad arall.<br><br>Gofynnodd RE i aelodau'r fforwm feddwl am rai o'r materion mwy sy'n effeithio ar wirfoddolwyr y gellid eu codi yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Holodd y grŵp sut mae Aelodau newydd yn cael eu hethol ar gyfer APCAP. | PAWB i ystyried pwyntiau i'w rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf.<br><br>SB i adrodd yn ôl ar sut mae Aelodau newydd yn cael eu hethol. |
| **Hyrwyddwyr Lles**<br>Cyflwynodd Joy Arkley y cysyniad o Hyrwyddwyr Lles i'r grŵp gan egluro bod cynrychiolwyr staff APCAP yn cael eu defnyddio i gefnogi llesiant cyfannol gweithwyr (fframwaith 7 elfen).<br><br>Cynigiodd JA y gellid, mewn theori, ymestyn y gefnogaeth hon i gynnwys gwirfoddolwyr a gofynnodd am adborth. Roedd y consensws cyffredinol o blaid clywed mwy a dywedodd gwirfoddolwyr Llwybrau fod y grŵp Llwybrau yn enghraifft wych o dîm sy'n gweithio'n llwyddiannus i gefnogi lles ei gilydd, gydag arweinydd y grŵp, Mitchell Hill, yn eiriolwr cadarnhaol dros ben. | JA i rannu'r cyflwyniad a grybwyllwyd a swydd-ddisgrifiad yr Hyrwyddwr Lles pan fydd ar gael pan fydd y maes cymorth hwn yn datblygu. |
| **Manteision i Wirfoddolwyr – Teithiau Cerdded APCAP**<br>Rhannodd RE ymateb e-bost gan Claire Bates (Pennaeth Twristiaeth Adfywiol) a oedd yn amlinellu'r pwysau ychwanegol ar APCAP i gynhyrchu refeniw a hefyd yn cadarnhau'r penderfyniad i ddychwelyd at y cynnig o un daith gerdded gyhoeddus am ddim i wirfoddolwyr bob blwyddyn.<br><br>Pwysleisiodd aelodau'r Fforwm y gellid gwella'r cyfathrebu mewnol o safbwynt penderfyniadau fel hyn er mwyn osgoi siomi gwirfoddolwyr unigol i'r dyfodol.<br><br>**Manteision i Wirfoddolwyr – Hyfforddiant**<br>Holodd DF am gyfleoedd i hyfforddi sydd ar gael i'r dyfodol drwy fudiadau trydydd parti fel PAVS. Cadarnhaodd RE fod yr hyfforddiant cymorth cyntaf yn cael ei gynnal gan PAVS a bod cyfleoedd yn y dyfodol bob amser yn cael eu rhannu yn y diweddariad i wirfoddolwyr lle bo hynny'n berthnasol. | Cynrychiolwyr y Fforwm i dynnu sylw rheolwyr llinell at anghenion hyfforddi gwirfoddolwyr penodol<br><br>RE/SB i barhau i dynnu sylw at gyfleoedd hyfforddi i'r dyfodol. |
| **Monitro Bywyd Gwyllt** | |

| | |
|---|---|
| Gofynnodd Ellie Sherwin a oedd y categorïau gweithgarwch ar Better Impact, e.e. llygod medi, yn berthnasol i'r gweithgareddau monitro presennol ac a oes cyfle i chwarae mwy o ran.<br>Cadarnhaodd RE mai gweithgaredd cyfyngedig sydd i'r pynciau arbenigol hyn, ond efallai y byddai tasgau ar gael i'r dyfodol gyda'r tîm Cadwraeth. | RE i archwilio'r cyfleoedd gyda'r tîm Cadwraeth |
| **Diwrnod Gwirfoddoli Parciau'r Deyrnas Unedig**<br>Mae dau ddiwrnod gwirfoddoli wedi cael eu cadarnhau i gyd-fynd ag ymgyrch Parciau'r DU i ddathlu gwirfoddoli ledled y wlad:<br><br>**Dydd Gwener 20 Medi – Castell Henllys**<br>Er mwyn i staff/gwirfoddolwyr/aelodau APCAP weithio gyda'i gilydd ar amrywiaeth o dasgau fel tacluso'r llwybr troednoeth, dwbio'r tai crwn, tacluso'r gerddi, ayb.<br><br>**Dydd Sadwrn 21 Medi – Freshwater East**<br>Diwrnod cyhoeddus i annog gwirfoddolwyr newydd i flasu amrywiaeth o dasgau yn ymwneud â rhywogaethau anfrodorol, mynediad a bywyd gwyllt (i'w cadarnhau) | RE/SB i ddosbarthu rhagor o fanylion yn niweddariad Awst |
| **Dathlu Gwirfoddolwyr**<br>Rhoddodd SB y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ei chynnydd yn ymchwilio i opsiynau gweithgareddau ar gyfer cynnal y dathliad yng Nghastell Caeriw, gan ystyried gweithgareddau tywys/wedi'u trefnu yn ôl y gofyn yn dilyn adborth o 2023.<br>Bydd y digwyddiad yn dilyn thema ganoloesol gan ganolbwyntio ar weithgareddau hwyliog, cymdeithasu a'r cyfle i archwilio tir y castell.<br><br>Y consensws cyffredinol oedd y byddai'r digwyddiad yn cael derbyniad da ac y byddai gwahoddiad i rannu rhai o'r manylion yn ddefnyddiol i amlinellu'r hyn y gall y gwirfoddolwyr ei ddisgwyl ymlaen llaw.<br><br>Mae'r dyddiad wedi'i gadarnhau ar gyfer dydd Gwener 4ydd Hydref. | SB i gael adborth gan y rheolwyr llinell a dal ymlaen i drefnu'r digwyddiad. |
| **Llawlyfr Gwirfoddolwyr a Rhifau Defnyddiol**<br>Cadarnhaodd RE fod y llawlyfr hygyrch newydd bellach ar gael yn yr adran Ffeiliau ar Better Impact.<br>Holodd GW a oedd y wybodaeth Rhifau Defnyddiol wedi'i chynnwys yn hwn ac, os nad oedd, a allai hon fod ar gael mewn lle defnyddiol. Credid bod y ddogfen hon eisoes ar Better Impact. | SB i gadarnhau a yw'r ddogfen rhifau defnyddiol ar gael ar Better Impact. |
| **Cyd-leoliad ar gyfer dogfennau gwirfoddolwyr**<br>Dywedodd RE ein bod yn edrych ar ffyrdd i APCAP gadw dogfennau defnyddiol i wirfoddolwyr yn ddiogel er mwyn gallu defnyddio'r gofod hwn fel hyb gwybodaeth. Mae RE ac SB wedi pwyso a mesur opsiynau i'w cadw fel rhan o wefan APCAP neu ddefnyddio Sharepoint gyda mynediad i wirfoddolwyr fel 'gwesteion'. Ar hyn o bryd mae Parc Cenedlaethol mynyddoedd y Cairngorms yn defnyddio Sharepoint yn llwyddiannus fel hyb gwirfoddoli ar gyfer | RE/SB i barhau â'r ymchwil |

| | |
|---|---|
| 65 o wirfoddolwyr. Dylid nodi y byddai angen awdurdodiad aml-ffactor i wirfoddolwyr fewngofnodi, ac y gallai hyn fod yn rhwystr i rai.<br><br>Mae angen gwneud rhagor o ymchwil TG i ddod o hyd i ateb. | |
| **Meddalwedd Better Impact**<br>Rhoddodd RE drosolwg o'r ffyrdd defnyddiol y mae cofnodi oriau ar Better Impact wedi bod o fudd i adrannau eraill APCAP o ran creu adroddiadau a dethol ystadegau ar gyfer ceisiadau am gyllid. Diolchodd i bawb am addasu i'r system newydd mor dda.<br><br>Tynnodd JK sylw at y ffaith nad oes modd mewnbynnu'r maes milltiroedd a deithiwyd yn gywir pan fydd rheolwyr llinell yn cofnodi eu horiau, ac mae hynny'n debygol o ystumio'r canlyniadau pe bai hyn yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau. Cadarnhaodd RE nad yw'r data hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd a bod milltiroedd yn dal i gael eu cofnodi drwy ffurflenni hawlio treuliau. Dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud ar draws APCAP ar hyn o bryd i helpu'r tîm datgarboneiddio i ddethol yr ystadegau perthnasol ynghylch teithio.<br><br>Cynigiodd MC y dylai'r tab Cyfleoedd ar eu dangosfwrdd gael ei boblogi'n well i amlinellu beth mae pob gweithgaredd yn ei olygu. Cadarnhaodd SB y bydd y nodwedd hon yn cael ei defnyddio mwy yn y tymor hir. | SB i drafod yr ymholiadau sy'n weddill am Better Impact gyda Jon King yn allanol |

## 6. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw eitemau eraill.